# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 ar 11 MAI 2023, ym Mhrif Neuadd yr Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards; Ms Aisleen Sturrock, Llywydd UMAber; Mr Arwel Thomas; Ms Claire Vaughan; Dr William Williams; Ms Nicola Wood; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Bayanda Vundamina, Darpar Lywydd UMAber, Ms Elain Gwynedd, Darpar Lywydd UMCA; Mr Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol, (ar gyfer cofnod 65); Mrs Andrea James, Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety (ar gyfer cofnod 65 a 66); Mr Nick Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Gweithredol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus; a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ms Sharron Lusher a Mr Mark Tweed.

## 54. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

   I Ddarpar Lywydd UMAber a Darpar Lywydd UMCA

   1. Bayanda Vundamina; Darpar Lywydd UMAber
   2. Elain Gwynedd, Darpar Lywydd UMCA

2. Llongyfarchiadau

   I'r canlynol ar gael eu hethol i Gymdeithas Ddysgedig Cymru

   1. Yr Athro Hazel Davey FLSW
   2. Yr Athro Helen Roberts,
   3. Yr Athro Andy Evans

   Hefyd, i'r Athro Rhys Jones ar gael ei ethol yn un o Gymrodyr Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.

3. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Charlie McLeod, myfyriwr Cyfrifiadureg yn yr ail flwyddyn;

2. Nick Bache, Rheolwr Technegol a Chynyrchiadau yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth; a

3. Benjamin Lewis Davies, cyn-Reolwr Nos yng Ngwasanaethau Llety a Chroeso’r Brifysgol.

4. Trefniadau dros dro swydd yr Is-Ganghellor

Amlinellodd yr Is-Ganghellor y cyfnod absenoldeb disgwyliedig.

**PENDERFYNWYD**

Byddai Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn cyfarfod i gytuno ar y trefniadau dros dro. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

5. Y Drefn Benodi: Cadeirydd y Cyngor

1. Rhoddwyd y manylion diweddaraf i’r aelodau ynglŷn â’r datblygiadau yn ogystal â braslun o’r amserlen arfaethedig.

6. Canllawiau ynglŷn ag achosion Hunanladdiad

1. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) wedi adolygu dogfen ganllawiau Universities UK, 'Responding to suicide: advice for universities' ac wedi ystyried y gwaith a wnaed ym Mhrifysgol Aberystwyth i fynd i'r afael â'r mater. Rhoddwyd diweddariad i’r Cyngor ynglŷn â phenodiadau staff yn y maes hwn ac am y rhaglen hyfforddi.

**55. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Eitem 64.2, Gallai talu Llywodraethwyr Prifysgol beri gwrthdaro posibl i holl aelodau annibynnol y Cyngor.

**56. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2023 (COU2223-085).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**57. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, a chamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2223-086).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

2. Adroddwyd bod y camau canlynol 'wedi eu terfynu', ar ôl cael diweddariad llafar:
   11.2.3 - Dangosyddion Perfformiad Allweddol
   Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor Ll&Ch ynglŷn â'r cyfraddau isel sy'n cwblhau'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol.

   17.2 – Ailbenodi'r Canghellor a'r Dirprwy Ganghellor
   Cymeradwyo'r argymhellion.

   32.2 – Gwaredu Llanbadarn – Arfarnu Opsiynau
   Mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r strategaeth waredu ar gyfer Llanbadarn.

   43.1 – Llythyr oddi wrth David Blaney, Prif Weithredwr, CCAUC
   Cytunwyd ar gynllun gweithredu, ar ôl cyfarfod gydag Adran y Gyfraith a Throseddeg. Mae camau breision wedi'u cymryd ac anfonwyd cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru at y Cyngor Cyllido. Bydd yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor, er gwybodaeth.

   50.2 – Ailenwi IBERS – Penglais
   Cafodd yr adeilad ei ariannu gan Gyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (BBSRC). Gofynnodd un o'r aelodau a oedd angen gofyn am ganiatâd cyn newid yr enw.

**58. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-087)

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pryd y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:

   1. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb;

   2. Penodi Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi).

   Yn ystod yr un cyfnod, cymeradwywyd y canlynol gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor:

   3. Tendr ar gyfer Rhaglen Addysg Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd Lefel 4: Cam 2

   4. Codiad cyflog interim UCEA

   5. Llwybr a rennir o Gogerddan i Benglais.

**59. GOHEBIAETH**

1. Llythyr oddi wrth David Blaney – Canlyniadau yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022

   DERBYNIWYD

Llythyr oddi wrth Dr David Blaney (COU2223-088)

NODWYD

1. Cynhelir dadansoddiad o'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr bob blwyddyn ac wedyn cytunir ar gynlluniau gweithredu. Cyn derbyn llythyr Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, cafodd ymagwedd ragweithiol ei chymryd a gweithredwyd ar y materion a nodwyd cyn i'r llythyr gael ei anfon.

PENDERFYNWYD

2. Nododd y Cyngor y llythyr.

2. <u>Llythyr Risg yr Adolygiad Sefydliadol</u>

DERBYNIWYD

Llythyr oddi wrth CCAUC

NODWYD

Cyflwynwyd y Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol drafft oddi wrth CCAUC yn y sesiwn wybodaeth i'r Cyngor. Byddai'r llythyr terfynol ac ymateb llawn yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i'w ystyried ar ôl derbyn y llythyr terfynol a chael cadarnhad o'r dyddiadau cau ar gyfer ymateb.

**60. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2223-089)

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Yn dilyn y strategaeth y cytunwyd arni gan y Cyngor i flaenoriaethu gofal iechyd, gwneir archwiliad cychwynnol i ystyried ymarferoldeb cynnig deintyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn amodol ar gasgliadau'r archwiliad a chael cadarnhad o gyllid digonol gan Lywodraeth Cymru, byddai unrhyw gynigion yn cael eu hystyried gan y pwyllgorau llywodraethu priodol a'r Cyngor.

3. Cafodd papur rhagdybiaethau ariannol ei drafod gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. Cafodd y sefyllfa ariannol a'r angen i adeiladu cronfeydd arian wrth gefn a gwella dyddiau hylifedd eu nodi yn llythyr yr Adolygiad Risg Sefydliadol.

4. Mae'r Brifysgol yn dal i fod mewn sefyllfa i dyfu, twf y gellid ei gyflawni trwy edrych ar y ddarpariaeth graidd a pharhau i ddenu myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r ffi benodol yn fater tymor hir sy'n her sylweddol i'r sector.

5. Gofynnodd yr aelodau a oedd yr argyfwng costau byw wedi effeithio ar gyfraddau cadw myfyrwyr. Dywedodd swyddogion bod cyfraddau cadw myfyrwyr yn mynd yn ôl i'r lefelau cyn Covid, er nad dyna'r patrwm a welir mewn prifysgolion eraill yng Nghymru.

6. Mae sefyllfa denu myfyrwyr yn edrych yn gadarnhaol, ac mae nifer dda o fyfyrwyr cartref a rhyngwladol wedi’u derbyn. Mae'r camau a weithredwyd yn fewnol wedi arwain at ddenu mwy o fyfyrwyr.

7. Mae mwy o incwm ymchwil yn cael ei gynhyrchu. Mae’r Labordai Milfeddygol bellach wedi cael cymeradwyaeth i ddechrau defnyddio cyfryngau biolegol Grŵp Perygl 3.

8. Mae’r UCU yn parhau mewn anghydfod gyda'r cyflogwyr ledled y DU ar faterion cysylltiedig â thâl ac amodau. Dywedwyd wrth staff y bydd 50% o gyflog yn cael ei ddidynnu am ddyddiau y byddant yn boicotio marcio, ond mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i atal 100% os yw'r effaith ar draws y sefydliad yn ddifrifol. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau UCEA ynglŷn â chyfran rhwng 50% a 100%. Yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) diweddar, daeth Undeb y Myfyrwyr i benderfyniad i gefnogi'r gweithredu, ond nodwyd mai ar gefnogi'r myfyrwyr y mae prif sylw’r Undeb.

9. Cafwyd diweddariad ar y digwyddiadau i ddathlu 150 mlwyddiant y Brifysgol. Llongyfarchodd y Cyngor y swyddogion ar lwyddiant digwyddiadau diweddar.

10. Roedd y Brifysgol wedi dod i’r rhestr fer mewn 5 categori yng Ngwobrau Myfyrwyr WhatUni, gan ennill gwobrau Darlithwyr ac Ansawdd Dysgu, a Bywyd Myfyrwyr. Dyfarnwyd y Brifysgol yn drydydd am wobr Prifysgol y Flwyddyn.

11. Bydd yr Athro Angela Hatton yn dechrau yn swydd Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi ym mis Awst 2023. Cafodd uwch benodiadau a gwobrau eraill eu nodi hefyd.

**PENDERFYNWYD**

12. Nododd yr aelodau yr adroddiad.

## 61. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2223-090).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddiweddariad cryno ar iechyd a diogelwch, yn seiliedig ar yr adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ll&Ch ar 07 Mawrth 2023.

2. Mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn nodedig a chafodd y Pwyllgor Ll&Ch sicrwydd bod yr heriau blaenorol o ran adnoddau yn cael sylw. Dylid diweddaru’r dyddiadau yng nghynllun gweithredu Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd i adlewyrchu’r cynnydd a wnaed. [**GWEITHREDU:** Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd].

3. Croesawodd yr aelodau’r ystyriaeth a roddir i ddiwylliant iechyd a diogelwch yn y Brifysgol, a nodi yn benodol sut roedd y gwaith yn ategu'r ystyriaeth ehangach a roddir i ddiwylliant yn y Pwyllgor Ll&Ch.

## 62. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2223-091).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Roedd y cworwm angenrheidiol o aelodau yn bresennol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Undeb y Myfyrwyr ac oherwydd hynny cafodd nifer o bolisïau eu pasio.

3. Bu’r broses etholiadol yn gadarnhaol a cholegol, ac mae tîm newydd wedi'i benodi.

4. Cynhaliodd UMCA sawl digwyddiad i rannu a hyrwyddo'r iaith yn ystod 'wythnos y Gymraeg'. Mae UMCA yn gweithio gyda Chymdeithas Gaeleg yn Iwerddon i rannu arfer da ac i drafod statws a defnydd y ddwy iaith.

5. Diolchwyd i gynrychiolwyr y myfyrwyr am eu cyfraniadau ac fe wnaethant hwy yn eu tro ddiolch i'r Cyngor am ei groeso a'i gefnogaeth. Gwahoddwyd y darpar swyddogion i'r cyfarfod yn rhan o'r drefn ymgynefino.

**63. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Diweddariad ynghylch y Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yn ymgorffori'r Cyfrifon Rheoli am Fis 8 2022-23 (COU2223-092)

NODWYD

1. Cafodd y codiad cyflog yn ystod y flwyddyn ei weithredu ar gost o £700,000. Mae hyn wedi'i wrthbwyso'n llwyr gan gyllid ychwanegol CCAUC, a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2023.

2. Nid yw niferoedd yr ymwelwyr sy’n dod i Ganolfan y Celfyddydau wedi cyrraedd yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig. Bydd Cyfarwyddwr newydd Canolfan y Celfyddydau yn dechrau ym mis Mehefin ac yn adolygu'r gweithrediadau, yn benodol sut y gallai Canolfan y Celfyddydau roi sylw i anghenion corff y myfyrwyr. Mae sefyllfa heriol Canolfan y Celfyddydau yn cael ei adlewyrchu mewn lleoliadau tebyg ledled Cymru ac nid yw'n unigryw i Aberystwyth.

3. Trafododd yr Aelodau effaith pwysau ariannol ar adnoddau ac yn dilyn hynny ar lwyth gwaith ac absenoldebau staff. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Ll&Ch i fonitro'r data. Mae strategaeth lles meddwl yn cael ei datblygu sy’n cynnwys cynlluniau cyd-gysylltiedig rhwng staff a myfyrwyr.

4. Trafodwyd yr ystafelloedd gwag sydd ym Mhantycelyn ar hyn o bryd. Cyflwynir papur opsiynau i Weithrediaeth y Brifysgol i'w ystyried, cyn ei gylchredeg i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ym mis Mehefin.

5. Os cedwir y ffioedd yn £9000, bydd angen i'r sector ystyried datrysiadau posibl, gan gynnwys ymhlith pethau eraill, strwythur sefydliadol a dulliau cyflwyno cyrsiau. Trafodwyd cynaliadwyedd ariannol y sefydliad, cynllunio wrth gefn, a’r modd y maent yn gysylltiedig â chynllunio’r gweithlu.

**PENDERFYNWYD**

6. Yng nghyswllt 63.2, cytunodd y Cyngor i wahodd Cyfarwyddwr newydd Canolfan y Celfyddydau i gyfarfod rhannu gwybodaeth yn yr hydref 2023 [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

2. <u>Dangosyddion Perfformiad Allweddol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Steve Walsh, Pennaeth Cynllunio (COU2223-093)

NODWYD

1. Roedd y Dangosyddion yn gysylltiedig â chyllid ymchwil a derbyn myfyrwyr rhyngwladol yn gadarnhaol iawn.

2. Caiff y Dangosyddion eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal i fod yn ddigon heriol.

3. Trafodwyd targedau'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol gan y Pwyllgor Ll&Ch, a nodwyd nad hwn efallai yw'r dangosydd mwyaf effeithiol o'r diwylliant yn y brifysgol. Amlinellwyd rhai o'r heriau gweithredol sy'n gysylltiedig â chwblhau dogfennaeth y Cynllun.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad.

3. <u>Cytuno ar Ffioedd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, (COU2223-094).

NODWYD

1. Amlygodd y broses gaffael gyflwr presennol y farchnad, ac mae'r ffioedd uwch yn adlewyrchu'r cyd-destun hwn. Mae chwyddiant costau staff a'r gwaith archwilio ychwanegol hefyd wedi eu hadlewyrchu yn y ffioedd.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyodd yr Aelodau ailbenodi KPMG yn archwilwyr allanol y Brifysgol am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Gorffennaf 2023.

4. <u>Argymhellion ffioedd heb eu rheoleiddio am 2024-25</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sue Clarke a Steve Walsh, Cynllunio (COU2223-095)

NODWYD

1. Mae’r ffioedd wedi eu hadolygu a byddant yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu yn y dyfodol. Cafodd y data cymharol yn yr adroddiad ei groesawu gan y Cyngor.

2. Bydd asesiad effaith yn cael ei gynnal ynglŷn â llety am ddim a fydd yn caniatáu i'r brifysgol weithredu camau lliniaru neu gynllunio camau lliniaru priodol.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwywyd y cynigion.

**64. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Adroddiad ar ddyddiadau cyfarfodydd 2023-24</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2222-096).

NODWYD

1. Gwnaed mân welliannau i amserlen y pwyllgorau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol i adlewyrchu cyfarfodydd y Cyngor ac i gydbwyso'r busnes ar draws y flwyddyn academaidd.

2. Mae’r Pwyllgor Enwebiadau wedi'i drefnu i sicrhau bod ei gylch gorchwyl yn cael ei arolygu'n rheolaidd, a bydd yn adrodd i'r Cyngor yng ngwanwyn 2024.

3. Bydd pob un ond un o gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn Aberystwyth. Cynhelir cyfarfodydd yr is-bwyllgorau yn rhithiol ar Microsoft Teams.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyodd yr Aelodau ddyddiadau'r cyfarfodydd am 2023-24.

2. <u>Talu Llywodraethwyr y Brifysgol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-097).

NODWYD

1. Cafodd papur ei ystyried gan y Pwyllgor Ll&Ch ym mis Tachwedd 2022. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Brifysgol ystyried yr adroddiad a chyflwyno argymhelliad i’r Pwyllgor Ll&Ch ac, wedi hynny, i'r Cyngor.

2. Mae nifer y Cadeiryddion a Chadeiryddion is-bwyllgorau sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol yn Lloegr yn cynyddu. Ond does yr un o brifysgolion Cymru wedi cymeradwyo talu unrhyw aelod o'u cyrff llywodraethu.

3. Cydnabuwyd heriau'r swyddogaethau a'r newidiadau o fewn y sector.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad na chyflwynir unrhyw newid o ran talu aelodau'r Cyngor. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn parhau i arolygu'r sefyllfa a chyflwyno diweddariadau perthnasol i'r pwyllgorau ac i'r Cyngor, fel y bo'n briodol.

3. Aelodaeth y Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-098).

NODWYD

1. Mae gormod o aelodau ar y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, tra bod swyddi gweigion ar bwyllgorau eraill, sef y Pwyllgor Archwilio a Risg; y Pwyllgor Buddsoddiadau, a'r Pwyllgor Taliadau.

2. Cafodd aelodaeth yr is-bwyllgorau ei ystyried yng ngoleuni’r matrics sgiliau. Ystyriodd yr Aelodau’r meini prawf a chytunwyd y byddai datblygu canllawiau pellach ar gyfer llenwi'r ffurflen hunanasesu yn rhoi dadansoddiad mwy cyson. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

3. Dylid defnyddio'r matrics sgiliau i nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau, cyn penodi aelodau newydd o'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd aelodaeth ddiwygiedig yr is-bwyllgorau.

4. Gwybodaeth Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-099).

NODWYD

1. Cafodd amrywioldeb aelodaeth y Cyngor ei ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2023 ac argymhellodd y dylid casglu gwybodaeth ynglŷn ag amrywioldeb aelodau'r Cyngor a'i chadw'n ddiogel.

2. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gofnodi ystadegau ynglŷn â rhywedd yn rhan o'i hadrodd blynyddol. Byddai unrhyw wybodaeth ychwanegol gan aelodau'r Cyngor yn cael ei chyflwyno'n wirfoddol.

3. Cafodd gwybodaeth arall, megis amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ei hystyried a'i nodi hefyd ar gyfer ymarferion yn y dyfodol, yn amodol ar gael cyngor gan y Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant. [**GWEITHREDU:** Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant]

**PENDERFYNWYD**

4. Cytunodd y Cyngor ar yr argymhelliad i gasglu gwybodaeth ynghylch amrywioldeb ei aelodau yn flynyddol, yn wirfoddol, gan adlewyrchu'r wybodaeth a gesglir ar gyfer staff y Brifysgol. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant]

**65. Y DIWEDDARAF AR YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2223-100).

NODWYD

1. Ceisiwyd cyngor cyfreithiol yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor ac fe'i hystyriwyd ymhellach. Er mwyn cyflawnrwydd, roedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi ystyried y Weithred Amrywio ac wedi nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob opsiwn. Roedd yr aelodau'n fodlon i swyddogion fwrw ymlaen â llofnodi'r Weithred Amrywio, yn amodol ar sicrhau cadarnhad ysgrifenedig gan WEFO eu bod yn fodlon i'r prosiect fynd rhagddo ar y sail honno.

2. Mae cymalau ymadael wedi'u cynnwys yn y Weithred Amrywio i ganiatáu i'r Brifysgol derfynu'r gwaith, pe bai'r costau'n mynd yn anfforddiadwy. Mae Grŵp Goruchwyliaeth yr Hen Goleg yn cyfarfod yn fisol ac yn cadw golwg ar y costau, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ac i'r Cyngor.

3. Mae is-gontractwyr wedi cyrraedd y safle ac mae'r gwaith wedi ailddechrau. Mae'r amserlen yn cael ei hadolygu a'i haddasu yn unol â hynny.

4. Diolchwyd i Dr Rhodri Llwyd Morgan, Andrea James a'r tîm am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad.

**66. DIWEDDARIADAU CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH YR YSTADAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety (COU2223-101).

NODWYD

1. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar yr uwch-gynllun, er bod rhai heriau'n parhau. Mae swyddogion yn blaenoriaethu meysydd sy'n dod ag incwm y gellir ei ail-fuddsoddi.

2. Mae'r cynlluniau gwaredu, a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor, yn cael eu gwerthu am gyfansymiau uwch na'r hyn a dybiwyd i ddechrau.

3. Mae dulliau cymysg wedi newid y ffordd mae staff yn gweithio. Bydd arolwg o'r defnydd a wneir o le yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth i lywio cynlluniau ac ymrwymiadau yn y dyfodol. Mewn adrannau megis Cyllid, ac Ymchwil, Busnes ac Arloesi datblygwyd enghreifftiau o ailwampio swyddfeydd a dulliau gwaith newydd. Croesawyd datblygiad mannau i gefnogi ymchwil.

**PENDERFYNWYD**

4. Nododd yr Aelodau’r cynnydd a wnaed yng ngoleuni’r cynllun gweithredu.

## 67. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2223-102);

2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2223-103); a

3. Covid: Gwersi a Ddysgwyd (COU2223-104);

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

5. Ers cyfarfod blaenorol y Cyngor, cafodd y Weithred Amrywio ynglŷn â phrosiect yr Hen Goleg ei llofnodi dan sêl ar 9 Mai 2023.

## 68. ADRODDIADAU GAN ISBWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU2223-105):

1. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (07 Mawrth 2023);

2. Llywodraethu a Chydymffurfio (07 Mawrth 2023);

3. Adnoddau a Pherfformiad (01 Chwefror 2023 a 09 Chwefror 2023); a

4. Y Senedd (02 Chwefror 2023)

NODWYD

5. Yr adroddiadau a ddaeth o’r is-bwyllgorau.

## 31. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

1. Mynegodd yr aelodau ddiddordeb i weld yr adnoddau yn Nhrawscoed. Cynigiwyd y gellid cynnal cyfarfod o'r Cyngor yn Nhrawscoed yn y dyfodol. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

2. <u>Ffarwelio</u>

    1. Hwn fyddai cyfarfod olaf y Cyngor i Sharron Lusher, Aisleen Sturrock a Dafi Jones. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu gwaith a'u cyfraniadau gwerthfawr yn ystod eu cyfnod yn y swyddi.

3. Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar 7 Gorffennaf 2023.